Cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 5 Gorffennaf 2016

Yn bresennol:

- Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC, Prif Weinidog (Cadeirydd)
- Mark Drakeford AC
- Vaughan Gethin AC
- Lesley Griffiths AC
- Jane Hutt AM (o eitem 4)
- Carl Sargeant AC
- Ken Skates AC
- Kirsty Williams AC
- Mick Antoniw AC

Swyddogion:

- Syr Derek Jones KCB, Yr Ysgrifennydd Parhaol
- Peter Greening, Pennaeth Is-adran y Cabinet (o eitem 4)
- Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet
- Matt Greenough, Cynghorydd Arbennig
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- David Costa, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Andrew Johnson, Cynghorydd Arbennig
- Alex Rawlin, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau (cofnodion)
- Helen Carey, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau
- Chris Jones, Prif Swyddog Meddygol Gweithredol (eitem 3)
- Karen Eveleigh, Pennaeth Fferylliaeth a Phresgripsiynu (eitem 3)
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi (eitem 5)
- Owain Lloyd, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Datblygu Gofal Plant (eitem 5)

Eitem 1: Cofnodion 21 Mehefin

1.1. Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion 21 Mehefin.

Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog

2.1 Nododd y Prif Weinidog y byddai'r trafodaethau yn y Cabinet y diwrnod blaenorol yn llywio'r ddadl ar refferendwm yr UE y prynhawn hwnnw.

Eitem 3: y Gronfa Triniaethau Newydd

3.1 Cyflwynodd ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon y papur, a amlinellodd gynigion ar gyfer cronfa triniaeth newydd a'r egwyddorion sylfaenol a fyddai'n cael eu cymhwyso.

3.2 Y cynnig oedd i'r gronfa ddarparu buddsoddiad byrdymor o ddim mwy na 12 mis ar gyfer meddyginiaethau newydd a gymeradwyir gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG), corff gwerthuso Llywodraeth Cymru ei hun. Byddai arddel dull a seilir ar dystiolaeth yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni'r polisi, ochr yn ochr â sicrhau y byddai'r rhai â'r angen clinigol mwyaf yn elwa.

3.3 Dylai'r gronfa gefnogi meddyginiaethau cost uchel ac arloesol a fyddai'n gam o bwys ymlaen mewn triniaeth i'r unigolion hynny sydd ag afiechydon sy'n cyfyngu ar fywyd neu'n bygwth bywyd. Byddai gwerth am arian hefyd yn un o elfennau allweddol y cynllun.

3.4 Cytunodd y Cabinet i'r papur.

Eitem 4: Busnes Cyfarfod Llawn y Llywodraeth

4.1 Trafododd y Cabinet gynnwys Grid y Cyfarfod Llawn a nodi bod angen ad-drefnu busnes y prynhawn hwnnw i greu lle am y ddadl ar Refferendwm yr UE.

4.2 Atgoffwyd y Gweinidogion y byddai angen iddynt fod yn y Siambr i bleidleisio ar y cynigion gweithdrefnol i'w cymryd mewn perthynas â Phwyllgorau'r Cynulliad.

Eitem 5: Cynnig Gofal Plant Cymru

5.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y papur, a ofynnodd i'r Cabinet gymeradwyo a darparu Cynnig Gofal Plant i Gymru.

5.2 Cytunodd y Cabinet i'r papur.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau
Mehefin 2016